



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Dysgu o'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel

**Fersiwn pobl ifanc**



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru  
Chwefror 2023

## Cynnwys y canllaw

	Tudalen		Tudalen
Beth yw'r Adolygiad Diogelu? .....	2	Cynnwys teulu ac unigolion allweddol.....	7
Pam wnaethon ni greu'r Adolygiad Diogelu?.....	3	Camau Adolygiad Diogelu .....	8
Ein rhwydwaith gymorth .....	4	Sut i ddysgu o Adolygiadau Diogelu?.....	9
Pryd i gynnal Adolygiad Diogelu?.....	5	Beth ydyn ni'n ei ddysgu?.....	10
Pwy sy'n cynnal Adolygiad Diogelu?.....	6	Geiriau anodd.....	11



# Beth yw'r Adolygiad Diogelu?

I wneud y canllaw Pobl Ifanc hwn yn syml i'w ddefnyddio byddwn yn defnyddio enw byr ar gyfer y broses '**Adolygiad Diogelu Unedig**' yn y ddogfen.

Yn syml, byddwn yn galw'r broses hon yn '**Adolygiad Diogelu**'.

Mae'r broses newydd hon yn dod ag Adolygiadau Amddiffyn Plant, Adolygiadau Amddiffyn Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig ynghyd o dan un ymbarél - yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Mae angen inni newid y ffordd rydyn ni'n ymdrin â phroblemau diogelu yng Nghymru.

**Mae diogelu'n golygu amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol person, yn enwedig y plant a'r oedolion sy'n wynebu'r perygl mwyaf, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu byw yn rhydd rhag camdriniaeth a niwed.**

Pan fydd plentyn neu oedolyn rydyn ni'n ei ddiogelu yn cael niwed, rhaid inni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i weld beth y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol i atal y niwed rhag digwydd.

## Yr enw ar hyn yw Adolygiad Diogelu.

Yn y gorffennol, pan roedd problem diogelu yn digwydd, roedden ni'n arfer cael llawer o gyfarfodydd i siarad amdani. Gwelon ni fod cael llawer o gyfarfodydd am bynciau anodd yn gwneud i bobl deimlo:

### wedi ypsetio, wedi blino ac yn rhwystredig

Roedd hyn yn annheg ar y bobl dan sylw felly roedden ni eisiau gwneud y broses yn haws iddynt.

Rydyn ni bellach wedi datblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl – ein **Adolygiad Diogelu** – ffordd o ymdrin â phroblemau diogelu.

**Cofiwch** fynd i'r adran geiriau anodd ar dudalen 11 i gael esboniad o unrhyw eiriau anghyfarwydd.



# Pam wnaethon ni greu'r Adolygiad Diogelu?

## Gwnaethon ni greu'r Adolygiad Diogelu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed yn y dyfodol.

Rydyn ni eisiau gwella'r broses ddiogelu a'i gwneud yn haws i ddysgu o achosion.

I wneud hyn rydyn ni wedi cyfuno'r holl adolygiadau blaenorol i wneud y broses adolygu yn fwy syml, ac mae'n golygu mai dim ond unwaith y mae'n rhaid i deuluoedd fynd drwy'r broses. Nid bwriad yr adolygiadau yw beio staff am wneud camgymeriadau.

## Nodau'r Adolygiad Diogelu

Rhai o nodau'r adolygiad yw:

- Gwneud un broses Adolygiad Diogelu i bawb yng Nghymru ei dilyn
- Dod â llawer o weithwyr proffesiynol i **un** cyfarfod i siarad am broblemau diogelu, yn hytrach na chael llawer o gyfarfodydd
- Gwneud bywyd yn haws i deuluoedd neu ddioddefwyr a gwneud yn siŵr bod ganddynt lai o gyfarfodydd i fynd iddynt
- Gwneud pethau'n gyflymach heb golli ansawdd
- Sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n well yn y dyfodol
- Sicrhau bod staff yn cael cymorth mawr ei angen gan reolwyr
- Sicrhau bod staff yn deall yr effaith mae sefyllfaoedd anodd yn ei chael ar deuluoedd
- Sicrhau ein bod yn dysgu o achosion cymhleth

Eu bwriad yw gwneud yn siŵr ein bod ni'n dysgu o bob achos. Mae'n bwysig bod pawb yn agored ac yn onest yn ystod Adolygiad Diogelu oherwydd dyna sut y byddwn yn gwella pethau.

Mae hefyd yn bwysig bod pobl sydd mewn perygl yn cael dweud eu dweud oherwydd bod eu llais yn bwysig.



## Ein rhwydwaith gymorth

Er mwyn cyrraedd ein nodau ar gyfer yr Adolygiad Diogelu rydyn ni wedi creu rhwydwaith gymorth.

Bydd y rhwydwaith gymorth yn cynnwys:

- Man lle bydd yr holl Adolygiadau Diogelu yn cael ei gadw a bydd gweithwyr proffesiynol yn gallu darllen yr adolygiadau hyn o'r gorffennol i'w helpu i ddysgu
- Tîm fydd yn sicrhau ein bod yn dysgu o bethau sydd wedi mynd o chwith
- Bydd y fîm yn ysgrifennu adroddiadau am y pethau aeth o'i le amlaf
- Bydd y fîm yn darparu hyfforddiant ac yn cynnal digwyddiadau i rannu'r ffyrdd gorau o weithio a'r gwersi a ddysgwyd ledled Cymru
- Bydd y fîm yn siarad am faterion difrifol y mae angen ymdrin â nhw ar lefel genedlaethol neu lefel y DU
- Bydd y fîm yn cysylltu'r hyn a ddysgwn â pholisiau a chynlluniau yng Nghymru a bydd yn cefnogi newidiadau i'r gyfraith ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffyrdd gorau



# Pryd i wneud Adolygiad Diogelu?

**Pan fydd rhywun wedi marw neu wedi cael niwed difrifol byddwn yn gwneud Adolygiad Diogelu i ddarganfod beth ddigwyddodd. Ni fyddwn yn gwneud Adolygiad Diogelu ar gyfer pob achos a welwn.**

Byddwn yn gwneud Adolygiad Diogelu pan:

- Rydyn ni'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi cael ei **gam-drin** neu ei **esgeuluso**.
- Mae rhywun 16 oed a throsodd wedi cael ei ladd gan berson mae'n perthyn iddo, neu y bu ganddo berthynas ag ef
- Rydyn ni'n meddwl bod y person hwn wedi marw o drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan rywun mae'n perthyn iddo, neu y bu ganddo berthynas ag ef
- Mae rhywun yn cymryd ei fywyd ei hun ac rydyn ni'n meddwl ei fod wedi gwneud hynny oherwydd bod rhywun yn ei niweidio
- Mae rhywun wedi cael ei ladd gan rywun sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Bu marwolaeth gan ddefnyddio **arf ymosodol** ac mae'r person dros 18 oed

**Cam-drin** yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Mae yna wahanol fathau o gam-drin.

Mae **esgeulustod** yn fath o gam-drin. Mae'n golygu nad yw rhywun wedi rhoi'r gofal sydd ei angen arnoch chi.

Mae **arf ymosodol** yn rhywbeth y byddai rhywun yn ei ddefnyddio i achosi niwed i berson arall, er enghraifft cylllell. Byddwn hefyd yn gweld a oedden ni'n gwybod am y plentyn neu'r oedolyn hwn mewn perygl o'r blaen. Ac os dylen ni fod wedi bod yn gweithio'n galetach i'w gadw'n ddiogel.

Mae'n bwysig bod y bobl iawn yn cynnal Adolygiad Diogelu a'u bod yn glir ynghylch beth yw eu rolau. Bydd pob Adolygiad Diogelu yn cynnwys y bobl ganlynol o'u hawdurdod lleol, eu bwrdd iechyd lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill. Byddant yn ffurfio'r Grŵp Adolygu Achos ac yn penderfynu a oes angen Adolygiad Diogelu.

## Sut i gynnal Adolygiad Diogelu?

Byrddau Diogelu Rhanbarthol, fîm o weithwyr proffesiynol fydd yn rheoli'r Adolygiad Diogelu yn eu hardal. Mae 6 yng Nghymru ac maen nhw'n goruchwyllo diogelu yn eu hardal. Bydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn llunio Grŵp Adolygu Achos.

### Bydd y Grŵp Adolygu Achos yn:

- Siarad â'r plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl os oes angen ac ag aelodau o'u teulu
- Siarad â staff sydd wedi bod yn gweithio gyda'r plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl ac â'u teuluoedd
- Sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn a bod staff yn dysgu o'r achos
- Anfon adroddiad yn ôl i'w Bwrdd Diogelu Rhanbarthol lleol gyda chynllun gweithredu

### Y Panel Adolygu

Yna bydd y panel adolygu'n rheoli'r broses adolygu ac yn casglu'r holl wybodaeth am yr achos at ei gilydd. Maen nhw hefyd yn sicrhau bod pawb yn dysgu o'r adolygiad. Dylai paneli adolygu i gyd fod yn weithwyr proffesiynol a dylent fod yr un grŵp o bobl drwy gydol yr adolygiad.

**Ond mae'n rhaid nad oes ganddyn nhw unrhyw beth i'w wneud â'r achos o'r blaen.**



# Cynnwys teulu ac unigolion allweddol

**Ar gyfer pob adolygiad a wnawn bydd angen cynnwys gwahanol bobl. Gallant fod yn aelodau allweddol o'r teulu a:**

- Y dioddefwr
- Y troseddwr
- Ffrindiau
- Staff cymunedol
- Cymdogion
- Cydweithwyr
- Cyflogwyr

**Rydyn ni wedi creu canllawiau ar gyfer hyn:**

- Cysylltir ag unigolion allweddol cyn gynted â phosibl
- Byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn yr adolygiad os mai dyna yw eu dymuniad
- Bydd unigolion allweddol yn cael gwybod am y broses a beth fydd yn digwydd
- Byddwn yn darparu person cyswllt i deuluoedd ac unigolion
- Byddwn yn cefnogi'r unigolion allweddol drwy'r broses adolygu
- Byddwn yn defnyddio iaith hawdd ei deall drwyddi draw
- Byddwn yn cyfathrebu yn eich iaith ddewisol
- Os yw teuluoedd ac unigolion allweddol yn teimlo nad yw'r adroddiad yn hollol gywir gallant awgrymu newidiadau
- Dylai teuluoedd ac unigolion allweddol wybod â phwy i gysylltu os na ddilynir y canllawiau hyn

**Pan fydd yr adolygiad yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn mewn perygl**

Yn y gorffennol nid oedd plant ac oedolion iau bob amser yn gallu siarad mewn adolygiadau.

Yn ein profiad ni, rydyn ni'n gweld ei bod yn well i bawb, gan gynnwys pobl ifanc, gymryd rhan hyd yn oed os mai dim ond ychydig bach.

- Bydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio gyda theuluoedd
- Byddwn yn rhoi adborth o adroddiadau i aelodau'r teulu yn y fformat y dymunant



## Mae llawer o gamau i fynd drwyddynt i gwblhau Adolygiad Diogelu.

### Llinellau amser

Mae llinellau amser yn dangos y dyddiadau pan ddigwyddodd rhai pethau. Dylai llinellau amser fynd yn ôl yn ddigon pell fel y gallwn ddeall y stori lawn. Ond ni ddylent fynd yn ôl mwy na 12 mis yn y rhan fwyaf o achosion.

### Dogfennau eraill

Mae'n ddefnyddiol creu dogfen sy'n dangos holl aelodau'r teulu mewn achos a sut maent yn perthyn i'w gilydd. Efallai y byddwn yn sylweddoli na allwn gynnal adolygiad ar achos penodol. Os byddwn yn stopio, byddwn yn ysgrifennu adroddiad i egluro pam.

### Dysgu o Adolygiadau Diogelu

Ar ddechrau pob Adolygiad Diogelu byddwn yn cynnal digwyddiad dysgu er mwyn i bawb allu trafod yr achos a dysgu ohono.

Byddwn yn defnyddio hen achosion i'n helpu.

Ar ôl yr adolygiad byddwn yn ysgrifennu adroddiad am yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu cynllun gweithredu.

Bydd hwn yn dweud beth sydd angen i ni ei wneud i wella diogelu.

Mae'r broses gyfan hon yn bwysig iawn ac yn helpu pawb i wneud yn well yn y dyfodol.



# Sut i ddysgu o Adolygiadau Diogelu?

## Y rhan bwysicaf o Adolygiadau Diogelu yw'r hyn y gallwn ei ddysgu ganddynt.

Bydd hyn yn helpu i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn fwy diogel yn y dyfodol.

Crëwyd Cadwrfa Ddiogelu Cymru fel lle i storio'r holl Adolygiadau Diogelu. Mae storio pob Adolygiad Diogelu mewn un lle yn ei gwneud yn haws i bawb ddysgu oddi wrthynt.

Bydd Canolbwynt Cydlynu Adolygiadau Diogelu yn defnyddio'r hen adolygiadau i ddeall pa achosion sy'n digwydd yng Nghymru ac i weld sut i wella diogelu.

### Digwyddiadau dysgu

Bydd Canolbwynt Cydlynu Adolygiadau Diogelu yn cynnal digwyddiadau dysgu bob 6 mis.

Mae Fforymau Proffesiynol Aml-Asiantaeth yn ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth a dysgu o Adolygiadau Diogelu. Cânt eu trefnu gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Mae'r digwyddiadau'n rhoi cyfle i bawb siarad am Adolygiadau Diogelu ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn fwy diogel yn y dyfodol.

Dylai unrhyw beth newydd a ddysgwn yn y digwyddiadau gael ei rannu â'r holl weithwyr proffesiynol ledled Cymru.

### Cynnal Adolygiadau Diogelu ar hen achosion

Ni ddylai adolygiadau gael eu cynnal ar bob achos.

Timau a phaneli adolygu sy'n penderfynu pa achosion sy'n cael Adolygiad Diogelu a pha rai sydd ddim.

Weithiau bydd timau'n penderfynu y byddai'n ddefnyddiol gwneud Adolygiad Diogelu ar hen achos.

Maen nhw'n gwneud hyn os ydyn nhw'n meddwl y gallwn ni ddysgu llawer o'r achosion hyn.

Rydyn ni'n dilyn yr un rheolau ar gyfer Adolygiadau Diogelu hyd yn oed os wnaethon nhw ddigwydd amser maith yn ôl.



## Bwriad Adolygiadau Diogelu yw dysgu a gwneud gwelliannau.

Nid bwriad Adolygiadau Diogelu yw cosbi staff am gamgymeriadau.

Yn ystod Adolygiad Diogelu efallai y byddwn yn sylweddoli bod staff wedi gwneud rhywbeth o'i le neu eu bod wedi torri'r gyfraith. Efallai y bydd angen i ni siarad â'r heddlu.

Ond ni ddylai hyn ein rhwystro rhag gwneud yr Adolygiad Diogelu.

Os bydd rhywun yn cwyno, mae gennyn ni broses gwyno y dylid ei dilyn.

## Diogelu gwybodaeth breifat

Bydd rhywfaint o wybodaeth breifat pobl yn cael ei rhannu mewn Adolygiadau Diogelu.

Ond dylid diogelu gwybodaeth breifat pobl gymaint â phosibl.

Er enghraifft, dylem ddefnyddio enwau ffug mewn adroddiadau i amddiffyn pobl.

A dylem sicrhau bod adroddiadau a dogfennau'n cael eu cadw yn rhywle diogel.

Efallai y bydd angen i ni ddweud wrth bobl pa wybodaeth sydd gennyn ni amdanynt.

Mae angen inni sicrhau ein bod yn dilyn y gyfraith.

### Dweud eich dweud

Nawr gallwch ddweud eich dweud ar ein proses Adolygu Diogelu.

Defnyddiwch ein **Ffurflen Ymateb Adolygiad Diogelu** i roi gwybod i ni beth yw eich barn.

Sut gallwn ni wella ein proses Adolygiad Diogelu?



## Geiriau anodd

<b>Camdriniaeth</b>	Camdriniaeth yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Mae yna wahanol fathau o gam-drin.
<b>Bwrdd Iechyd</b>	Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn eich ardal. Mae'r gwasanaethau iechyd hyn yn cynnwys deintyddion, optegwyr, fferyllfeydd yn ogystal â meddygfeydd ac ysbytai.
<b>Hawliau Dynol</b>	Hawliau dynol yw'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bob person yn y byd, o enedigaeth hyd farwolaeth. Maent yn berthnasol waeth o ble rydych chi'n dod, beth rydych chi'n ei gredu neu sut rydych chi'n dewis byw eich bywyd.
<b>Awdurdod Lleol</b>	Mae cynghorau lleol, y math mwyaf cyffredin o awdurdod lleol, yn cynnwys cynghorwyr sy'n cael eu hethol gan y cyhoedd mewn etholiadau lleol. Mae cynghorwyr yn cynrychioli eu cymunedau lleol, yn gwneud penderfyniadau pwysig am wasanaethau a blaenoriaethau'r cyngor wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae cynghorau yn gyfrifol am ofal cymdeithasol ac yn darparu rhai agweddau ar drafnidiaeth, tai ac addysg. Maent hefyd yn gyfrifol am ystod o wasanaethau gan gynnwys llyfrgelloedd a chasglu gwasttraff.
<b>Esgeuluso</b>	Mae hwn yn fath o gamdriniaeth. Mae'n golygu nad yw rhywun wedi rhoi'r gofal sydd ei angen arnoch chi.
<b>Arf bygythiol</b>	Mae arf bygythiol yn rhywbeth y byddai rhywun yn ei ddefnyddio i achosi niwed i berson arall, er enghraifft cylllell.
<b>Troseddwr</b>	Dyma rywun sy'n cyflawni gweithredoedd niweidiol neu anghyfreithlon.

<b>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol</b>	Tasg pob bwrdd diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o fewn ei ardal.
<b>Diogelu</b>	Mae hyn yn golygu diogelu iechyd, lles a hawliau dynol person.
<b>Dioddefwr</b>	Person sy'n cael ei niweidio, ei anafu, neu ei ladd o ganlyniad i drosedd, damwain, neu ddigwyddiad neu weithred arall.
<b>Lles</b>	Nid yw eich lles yn golygu bod yn iach yn unig, mae'n golygu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod yn iach yn eich emosiynau</li> <li>• teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw</li> <li>• cael pob cyfle i wneud yn dda yn yr ysgol</li> <li>• cael ffrindiau</li> <li>• bod yn rhan o gymuned dda, gref</li> <li>• bod yn ddiogel rhag trais</li> </ul>





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Diogelu ar gyfer y dyfodol

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Gwefan: [lyw.cymru/canllawiau-diogelu](https://lyw.cymru/canllawiau-diogelu)

E-bost: [SUSRWales@gov.wales](mailto:SUSRWales@gov.wales)